*This document is available in English* **Eitem Agenda 09iii**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** | |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** | |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** | |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** | |
| Pwnc | **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** | |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ganlyniad yr archwiliad allanol ar fesurau gwella 2024/25 yr Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Gwella blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r gofyniad hwn wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2024-2029 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) 2024-2025, a gyflwynwyd i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15 Gorffennaf 2024.

3 Mae'r mesurau gwella yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, y mae'n ofynnol iddynt adrodd ynghylch a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan adran 17 ac 19 y Mesur.

## ARGYMHELLION

4 Gofynnir i'r Aelodau:

i) Nodi'r llythyr archwilio sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

## CEFNDIR

5 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi eu hamcanion gwella yn unol â'r Mesur, a'u hamcanion llesiant i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod mae'r rhain yn cael eu trin fel yr un pethau.

6 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod:

- Wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- Gwneud trefniadau i sicrhau bod ei amcanion gwella'n cael eu cyflawni; a
- Gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safon perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei bodloni.

**GWYBODAETH**

7 Mae CRMP 2024-2029 a CRMIP 2024-25 yn nodi amcanion yr Awdurdod, ac fe'u cymeradwywyd gan yr Aelodau yng nghyfarfod 15 Gorffennaf 2024. Mae'n destun adolygiad archwilio gan Archwilio Cymru, y mae'n ofynnol iddynt gadarnhau a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r mesurau gwella.

8 Mae'r llythyr archwilio a nodir yn Atodiad 1 yn cadarnhau bod Archwilio Cymru wedi gorffen ei waith a'i fod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| Cyllideb | Mae'r mesurau gwella a nodir yn CRMP 2024-2029 a CRMIP 2024-2025 wedi'u seilio ar y broses gynllunio ariannol |
| Cyfreithiol | Mae adroddiad Archwilio Cymru yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r gwaith datblygu ar CRMP 2024-2029 yn ystyried y risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod. |